

CWLWM

Mudiad Chwiorydd
Undeb Bedyddwyr Cymru

MAI

2020

Rhif 63

Golygydd:

Einir Jones

Pris 50c



Taflen Gyswilt Mudiad Chwiorydd Bedyddwyr Cymru

Cynnwys

Golygyddol

Gair o Anogaeth

Gweddi Lleian

Krakov ac Aushwitz

Oedfa Aion Llanuwchllyn

Anerchiad y Chw Falmai Puw Davies

Soned gan Winnie Jones

Enwau Capeli

Pwy neu Ble?

Flapjacks Blasus

Yr Atebion i Pwy neu Ble

Torth Ffrwythau

Diolch am Destun

Adroddiad yr Ysgrifennydd

Gweithgareddau Glyn Nest

Golygyddol

Wel ffrindiau Cwlwm, dyna newid ar fyd! Dim staff yn y Llwyfan i gyhoeddi hwn! Dim modd ei ddosbarthu hyd yn oed pe byddai modd ei gynhyrchu! Neb yn cwrdd mewn capel i gael copi!

Diar mi, beth wnawn ni dwedwch? Wel, i ddechrau gadewch i ni ddiolch am dechnoleg. Rydyn ni'n rhegi digon arno ac yn dweud ei fod wedi dwyn llawer oddi wrthym ond yn wir i chi, mae'n cymryd pla pandemig i'n dysgu sut i werthfawrogi rhai pethau. Trwy Youtube a Zoom a Teams ac ar y We a thrwy ebost mae'n bosib i ni fod mewn cysylltiad gyda'n gilydd ac mae'n bosib i mi ddod â hwn atoch.

Diolch i Dduw am dechnoleg ddweda i.

Fe fydd y rhifyn hwn yn ymddangos ar y We yn unig felly oherwydd amgylchiadau, ond falle – os bydd pethau yn well ym Medi – y daw rhifyn papur allan bryd hwnnw yn cynnwys hwn a stwff newydd Medi ar gyfer y rhai nad ydynt yn 'computer literate' fel y dywedai fy ffrind yn yr ysgol gynt. Rhifyn dwbwl unigryw!

Hoffwn ddiolch i chi i gyd sydd wedi cyfrannu at y Cwlwm yma ym mhob ffordd ac yn enwedig i Bonni (sydd ddim yn y swyddfa) am drefnu'r busnes i gyd ac i Simeon Baker am roi hwn ar y We i ni (a d'yw e ddim yn y Swyddfa chwaith!).

Cadwch yn ddoeth ac yn ddiogel a bendith Duw arnoch i gyd i bob dyfodol.

Einir Jones

Os garech gyfrannu i'r rifyn nesaf gydag erthygl, cerdd, emyn, hanes a.y.y..b., anfonwch i'r cyfeiriad arferol os gwelwch yn dda.

Carn Ingli,
97 Ffordd y Coleg,
Rhydaman.
SA18 2BT

Neu ebost: einir.jones@yahoo.co.uk
jtalfryn@yahoo.co.uk

Gair o Anogaeth

gan

Y Parchedig Glandwr Roberts Tycroes.



(Glan a Meriel gynt yn dathlu 25ain yn y weinidogaeth)

Ar rai achlysuron mewn bywyd mae gair o anogaeth yn medru bod yn bell-gyrhaeddol ac yn gymorth i bwy bynnag sydd â'u hangen. Yn Llyfr yr Actau credodd Barnabas y byddai gair o anogaeth yn gymorth i ddod â'r gorau allan mewn person – Actau 9, 36. Gelwir Barnabas yn Fab Anogaeth. Enw da. Yr oedd Barnabas wedi annog Marc i ymuno gydag ef a Paul ar eu taith genhadol gyntaf. Ond am ryw reswm bu cynnen rhyngddynt nes iddynt ymwahanu. (Actau 16, 36-40). Pan ofynnodd Barnabas i Paul i roi ail gyfle i Marc ymuno gyda hwy ar yr ail daith genhadol, gwrthododd Paul yn bendant.

Ond, ys dywed y ddihareb, Dyfal donc a dyrr y garreg, fe gafodd Marc ail gyfle yn nes ymlaen a dod yn ffrind eto i Paul ac yn 'fab' i Pedr hefyd yn nes ymlaen. Mae'r eglwys yn ddibynnol ar bobl fel Barnabas heddiw – y rhai sy'n annog yn ffyddlon a theyrngar. Pan fyddaf yn ymweld â nifer o eglwysi i gynnal oedfaon mae rhai ysgrifenyddion yn ymddiheuro bod y gynulleidfa cyn lleied ag y mae.

Ond ar hyd yr oesau trai a llanw fu hanes yr eglwys, ac yn y sefyllfa sydd ohoni mae'n hollbwysig bod ein hanogaeth yn hael er mwyn i'r genhedlaeth bresennol ddyfalbarhau.

Ond ar hyd yr oesau trai a llanw fu hanes yr eglwys, ac yn y sefyllfa sydd ohoni mae'n hollbwysig bod ein hanogaeth yn hael er mwyn i'r genhedlaeth bresennol ddyfalbarhau.

Mae gair o werthfawrogiad i eraill yn gallu tanio drwy eu hysgogi ac i ddod i gredu nad yn ofer y bu eu hymdrechion. Yn dilyn blynyddoedd di-dor o waith ffyddlon a chlodwiw fel cogydd i'r Dug Wellington, syfrdanwyd ffrindiau'r cogydd gan ei ymddiswyddiad annisgwyl. Atebodd y cogydd eu hymholiadau fel hyn: 'Os bydd cinio wedi ei baratoi yn ardderchog, dd'wed y Dug ddim un gair o glod na gwerthfawrogiad.'

Fe ddylem ni werthfawrogi cymwysterau pobl eraill. Pan fethodd y Dug â mynegi gair o werthfawrogiad efallai bod y cogydd yn credu nad oedd yr hyn roedd wedi ei baratoi yn werth ei gyflawni. Mae gair o werthfawrogiad didwyll yn gallu tanio ac uno pobl gan ein clymu ni oll i'n gilydd mewn cariad a gwerthfawrogiad.

Droeon fe ddes i ar draws Cristnogion oedd yn swil o roi gair o dystiolaeth. Ychydig ohonom sy'n gallu dirnad gwerth geiriau ac yn y dyddiau yma pan mae Eglwys Crist ar yr ymylon, yr angen pennaf heddiw yw sefyll i fyny a chael ein cyfrif. Wyr neb ohonom beth fydd effaith ein geiriau a'n tystiolaeth i eraill.

Roedd bywyd John Bunyan yn enghraifft glasurol o hyn. Clywodd John Bunyan ddwy gymdoges yn siarad â'i gilydd dros ffiniau eu gerddi ac aeth ati i wrando. 'Clebran yr Efengyl' oedd ei ddisgrifiad o'u sgwrs. Cafodd Bunyan droedigaeth yn y fan a'r lle, daeth i gredu yng Nghrist oherwydd yr hyn a glywodd gan y ddwy a dechrau pregethu'r Efengyl ei hunan. Gan nad oedd trwydded bregethu yn ei feddiant fe'i carcharwyd yn Bedford a'r pryd hwnnw yr ysgrifennodd Taith y Pererin.

Mae trydydd pennill emyn Frances Ridey Havergal (767 yn Caneuon Ffydd) yn dweud ei dymuniad hi i'w llafariaid fod yn dystion ac yn berthnasol i'r cyfnod.

Cymer di fy llais yn lân, am fy Mrenin boed fy nghân..

Gweddi Lleian

gan

Arvonja Young, Caersalem, Caernarfon

Arglwydd, fe wyddost yn well na mi fy hun fy mod yn heneiddio ac y byddaf ryw ddydd yn hen.

Cadw fi rhag yr arfer ofnadwy o feddwl bod yn rhaid i mi ddweud rhywbeth ar bob pwnc ac ar bob achlysur.

Gwared fi rhag yr awydd i roi trefn ar fusnes pawb.

Gwna fi'n feddylgar ond nid yn oriog, yn gymwynasgar ond nid yn fusneslyd.

Gyda'm stôr eang o ddoethineb mae'n drueni peidio â'i ddefnyddio i gyd – ond fe wyddost yr hoffwn i gadw rhai cyfeillion hyd y diwedd,

Cadw fy meddwl yn glir rhag ail-adrodd manylion di-ben-draw; rho i mi'r ddawn i ddod at y pwynt.

Selia fy ngwefusau ar fy ngofidiau a'm poenau. Maen' nhw'n cynyddu ac mae sôn amdany'n nhw'n mynd yn felysach fel yr â'r blynyddoedd heibio.

Ni feiddiaf ofyn am ddigon o ras i fwynhau hanesion poenau pobl eraill ond rho gymorth i mi i'w dioddef yn amyneddgar.

Feiddia'i ddim gofyn am gof gwell ond gofyn am fwy o ostyngedd rwydd a llai o 'styfnigrwydd pan fydd fy nghof yn ymddangos yn wahanol i gof pobl eraill.

Dysga i mi y wers ogoneddus nad fi sy'n iawn bob tro.

Cadw fi'n felys – heb fod yn berson sur - un o brif gampweithiau'r diafol.

Rho i mi'r gallu i weld pethau da mewn lleoedd annisgwyl a thalentau mewn pobl anhebygol. A dysg i mi Arglwydd y gras i ddweud wrthyn' nhw.

Amen.

Krakow ac Auschwitz

Yng nghyfarfod mis Ionawr eleni o Glwb Henoed Tycroes 'roedd rhaid i'r siaradwr gwadd ddileu ei ymweliad. Felly, Mary y Gadeiryddes (sef fi!) roddodd anerchiad am ein gwyliau, fi a Ryall y gŵr – i wlad Pwyl, beth amser yn ôl bellach.

Wedi teithio trwy Bwyl a phrofi syndod wrth edmygu lleoedd a chlywed hanes y werin fe deithion' ni i Krakow. Cawsom gyfle i edmygu a rhyfeddu ar harddwch y ddinas.

Krakow oedd y brifddinas frenhinol ar un adeg. Cerdded i gyfeiriad y sgwâr enfawr Rynek Glowny a rhyfeddu at eglwys ysblennydd Mariacki, mawredd Sukkenice – y Cloth Hall - a chlywed am yr adeg lewyrchus pan oedd y Cloth Hall honno yn ei hanterth. Roedd cyfoeth y ddinas wedi ei seilio ar ddeunydd. Yna fe ymlwybron ni lan y rhiw tua Chastell Wawel.

Diwrnod wrth ein boddau oedd hwnnw yn cofio amser llewyrchus y ddinas ac hefyd amser brawychus yr Ail Ryfel Byd. Bore trannoeth y bwriad oedd ymweld â gweryll Auschwitz-Birkenau. Roedden' ni'n teimlo braidd yn nerfus ac yn amheus, a dweud y gwir, am yr hyn oedd i ddod.

Wel, fe wnaethom ni gyrraedd y gweryll. Rheilffyrdd yn rhedeg o bob cyfeiriad i'r fangre hon. Uwch y mynediad i'r gweryll a'r gatiau haearn roedd geiriau Almaeneg ac o'u cyfieithu "Gyda gwaith daw rhyddid." Ai gweryll gwaith oedd y lle hwn tybed?

Cawsom ein tywys o amgylch gan griw o Almaenwyr ifanc. Ie, ifanc – ond gwybodus a phob un â chysylltiad teuluol gyda'r anffodusion a fu'n garcharorion yma o dan y Natsïaid.

Heibio i adeiladau gwych, cadarn a hefyd yn ddeniadol i'r llygad i ddechrau. Ond, wedi clywed y tywyswyr ifanc yn egluro pwrpas pob un ohonynt, oerodd y gwaed. Heibio i fur. Yma y saethwyd nifer o'r carcharorion ac roedd ôl y bwledi yn dal i'w gweld ynddi. Yna eglurodd y llanc ifanc beth oedd pwrpas y man dieflig hwn.

I'r Almaenwyr roedd Auschwitz mewn lleoliad delfrydol. Hawdd oedd cludo'r miliynau o Iddewon a rhaid pwysleisio eraill hefyd, o wledydd Ewrop i'r hunllef yma oedd yn eu haros.

Roedden' nhw'n cyrraedd mewn wagenni anifeiliad, rhwng pobl eraill ac yn sefyll yn dyn a chlos, heb fwyd na diod am dridiau. Bwced yn y gornel. Amgylchiadau anhygoel, afiach, anesmwyth a llaith.



*Bydd Gwaith yn Rhyddhau
uwchben gât yn Auschwitz
llun: en.m.wikipedia.org*

Dadlwythwyd y carcharorion a'u rhannu yn ddwy garfan gan Dr Mengele. I'r chwith yr oedrannus, y plant, yr anabl o ran corff a meddwl. Cyfeiriwyd hwy i gyd i'r cawodydd. Diosg eu dillad yno a gadael eu heiddo tu allan. Mynd i mewn i'r fan i ymolchi – dyna gredai'r carcharorion. Ond nid cawodydd dŵr oedd yno ond cawodydd gwenwyn. Trosglwyddwyd y cyrff i'r Amlogfa. Fe glywais am deulu yn dod yma a'r famgu yn ymbil ar ei hwyres i roi'r baban iddi. Ond ofer fu'r cyfan – i'r cawodydd yr aeth y ddwy. Daeth y fam hon yn fyw allan o'r gwersyll a bu'n rhaid iddi fyw gyda'r ffaith weddill ei hoes iddi roi ei baban i'w mamgu.

I'r naill ochr byddai'r abl yn cael eu rhoi, y rhai fyddai o fudd am gyfnod i'r Almaenwyr. Draw at y tatwist i bin-baentio rhif ar eu crwyn. Oddi yno i'r cytiau a dod o hyd i bunk yn y llwyth drewllyd oedd yno wedi eu gorchuddio â gwellt. Rhaid oedd rhannu gyda dau arall o leiaf.

Bore trannoeth brecwast – os gellir galw'r pryd yn frecwast. Rhesi eto a chwilio am bobl yn meddu ar grefft neu dalent ym myd miwsig. Yn ôl un o'r goroeswyr sy'n fyw heddiw yn Llundain, ei dawn i ganu'r soddgrwth a achubodd ei bywyd. Âi'r gweddill i weithio yn y chwareli – gwaith hir a chaled o dan amodau amhosibl. Byr fu eu bywydau oherwydd diffyg bwyd maethlon a gofal.

Ffaith frawychus oedd yr arbrofion meddygol gan Dr Mengele, *Doctor Death* fel y'i gelwid. Dewisai efeilliaid, pobl â nam corfforol neu feddyliol ac eraill a gymerai ei sylw. Ni fentraf sôn am yr arbrofion.

Yn 'gofalu' yn ddyddiol am y carcharorion roedd y Kapo – pobl o'r un dras â'r carcharorion. Dywed llawer awdur bod y rhain wedi eu dewis am eu natur ddieflig a chreulon. Gwyddai'r Kapo os na fedrent gadw trefn byddent hwy eu hunain yn colli eu swyddi ac yn ymuno â gweithwyr y chwarel.

Daeth y rhyfel i ben. Â'r milwyr Sofietaidd yn cyrchu am Auschwitz roedd panic mawr ar ran yr Almaenwyr i losgi tystiolaeth a difetha popeth oedd yn bodoli yn y gwerysll.

Yna casglu'r carcharorion mwy abl o'r trueniaid gwael a'u gyrru ar daith o ddeugain milltir i'r trefi agosaf. Dyma'r *March of Death*. Ychydig iawn ohonynt a ddaeth i ben y daith ofnadwy honno.

Pan gyrhaeddodd y Sofietaid a gweld yr amgylchiadau difrifol roedden nhw wedi eu syfrdanu. Roeddent hwythau â'u natur ddygn wedi synnu'n fawr.

Profiad hanfodol ond arswydus oedd dod i Auschwitz. Ac mae geiriau'r arweinydd ifanc yn dal yn fyw yn y cof. "We must not forget lest it happens again."

Dydd Llun Ionawr 27ain oedd dyddiad cofio'r Holocaust eleni. Erbyn hyn yn 2020 dim ond dau gant o'r goroeswyr oedd ar ôl.

Roedd Auschwitz yn brofiad eithriadol, eithafol, anghysurus a phwerus. Ond er hynny teimlais mai da oedd i mi fod yno. Nid digon cadw'r hanes ar gof, rhaid addysgu'r to ifanc am y cyfnod dieflig hwn yn hanes y Ddynoliaeth. Ein swyddogaeth ni, bob un, yw sicrhau na welir ei debyg fyth eto.

Mary Rees. Bethesda, Tycroes.

Oedfa Ainon Llanuwchllyn

Chwefror 23ain, 2020

Capel Ainon (B) Llanuwchllyn



Oedfa Ddathlu ac i Longyfarch

Mrs. Buddug Medi

ar gyflawni 60 mlynedd fel
Pregethwr Cynorthwyol

~~~~~

Dydd Sul, Chwefror 23<sup>ain</sup>, 2020  
am 2:00 o'r gloch y prynhawn  
yng Nghapel Ainon, Llanuwchllyn

~~~~~

*"Y mae dy air yn llusern i'm troed,
ac yn oleuni i'm llwybr"*

Salm 119:105



Mrs Buddug Medi

Efallai na fydd pobl cymanfaoedd eraill wedi clywed o bosib am y dathliad a gynhaliwyd yn Ainon, Llanuwchllyn ar Chwefror 23ain eleni. Roedd y capel bach hynafol a di-drydan yn llawn i'r ymylon. Yn ystod fy sgwrs am fy atgofion soniais i'r chwaer Emily Roberts ofyn i mi gadw oedfa yng Nghapel Noddfa, Sgubor Goch, Caernarfon pan oeddwn ar fy ail dymor yng Ngholeg y Normal, Bangor. Daeth pedair ffrind hefo fi sef Myfanwy Davies, Bercoed, Pentre-Cwrt, Llandysul (sydd wedi ein gadael bellach) a Gwawr Edwards, Llanuwchllyn, Enid Jones y Bala a Marged Jones Sarn, Pwllheli. Daeth y tair olaf i'r gwasanaeth yn Ainon gan godi ar eu traed yn y gynulleidfa pan enwais hwy.

Curodd Emily R bob drws yn Sgubor Goch a holi "Garech chi gael capel yma?" Yr ateb: "Capal wir! Tafarn ia!" A hysio'r cŵn ar ei hol!

Ond galwodd Emily R efo'r cigydd a rhoi esgryn i'r cŵn! Roedd capel Noddfa'n llawn y noson honno yn Chwefror 1960 – y tro cyntaf i mi bregethu! Pan fentrais gadw oedfa am y tro cyntaf mewn capel bach ar gyrion tref, daeth gwraig ata'i a dweud “Croeso i chi gyd-addoli ond fel arall bydd rhaid i mi i ffonio'r Polis ‘For loitering with intent!’

Cawsom anerchiad grymus ar Y Wraig Fedrus yn Aion gan Falmai Puw Davies, chwaer Geraint Puw cyn lywydd Cymanfa Caerfyrddin a Cheredigion. 'Doedd dim pall ar y bwyta amser te yn Neuadd Bentref Llanuwchllyn. A chacen enfawr! Y cyfan gan Eleri Pugh, Gwesty'r Eryrod, sy'n gefn i bob achlysur lleol. A dyma englyn a ysgrifennwyd yn arbennig ar gyfer Achlysur o Gofio 60 mlynedd o Bregethu, Chwefror 23ain, 2020.

Buddug Medi

Gyda'i chred yng ngwyrth y bedydd – a dygn
Chwe degawd i'w chrefydd,
Yn ddi-ffael rhannodd ei ffydd
Yn ei helpen mor gelfydd.

Alwyn E. Jones. Llanuwchllyn

Anerchiad y Chwaer Falmai Puw Davies ar yr Achlysur Hwn

P'nawn da bawb, mi fydde'r plant di-Gymraeg yn fy nyddie dysgu wastad yn fy nghyfarch pan own i mewn syndod efo'r cyfarchiad “Bobol y Bala!” am fy mod i yn eu cyfarch felly o dro i dro fy hunan. Mi allai'n sicr ddweud hynny heddiw, Bobol y Bala a phawb o bobman hefyd. Cyfarchion i chwi ac hefyd cyfarchion o'r Cymanfaoedd 'dw'i'n perthyn iddyn nhw o Faesyfed a Maldwyn a Chaerfyrddin a Cheredigion. Er yr arswydus swydd mae hi'n fraint fawr bod yma.



'Dw'i'n meddwl mod i'n nabod Buddug Medi erioed ond mae hi rhyw flewyn yn hŷn na fi. Gwybod amdani mae'n siwr oedd y peth. Fe ddaeth i Faldwyn i ddechrau ei gyrfa. Daeth i Benfforddlas a Stae fel athrawes. Minne erbyn hynny yn y Drindod.

Mae gen i frawd, Geraint, bron 11 mlynedd yn iau na fi. Cofiaf yn dda i mam ddweud "Mae Geraint wedi dod adref o'r ysgol heddiw yn deud " Nid Miss Jones 'di Miss Jones rwan, Miss Medi 'di hi cofiwch."

Mi fydde hi'n dod â'i mam gyda hi i bregethu yng Nghapel Bedyddwyr y Stae, a dod i de acw. Bu'n ffyddlon i ni yno tra bu'r eglwys fach, gan gynnwys dod i gymryd rhan yn yr oedfa gloi. Gwyddwn fod ganddi dalentau medrus. Rhoddodd Duw dalentau i ni gyd, ac wrth ddod â'r talentau yna at ei gilydd mae adeiladu eglwys a chymdeithas.

Gwyddom amdani fel awdur toreithiog, fel dramodydd, fel beirniad a hyfforddwraig, ac eisteddfodwraig sy'n aelod o Orsedd y Beirdd. Bu'n brifathrawes, darlithydd ac fel hanesydd llawn gwybodaeth. Gwraig sydd wedi ymhél â'r pethe. Bu drwy amserau caled o afiechyd a cholledion, a bydde bob amser yn dweud "'Dw'i'n cael fy nghynnal."

Thema'r Neges Heddiw yw: Merched yn ein Cymdeithas.

Sul i ddathlu ac i fod efo'n gilydd yw'r Sul arbennig yma. Sul yn fwyaf arbennig o ddathlu 60 mlynedd o bregethu'r gair gan un o'ch plith ac mae'n fraint i fod yma.

D'wi am ganolbwyntio ar y wraig fedrus y clywsom amdani yn Llyfyr y Diarhebion. Mae'r bennod yma, y bennod ola' o lyfr y Diarhebion yn gyfarwydd i bawb ohonom ac mae'n siwr y gwyddom i gyd am wragedd tebyg i'r wraig fedrus honno yn y darn.

Bron na chlywaf y cyhoeddwr mewn capel yn datgan "Wnaiff y gwagedd aros ar ôl?" pan fo achlysur arbennig i baratoi eto mewn eglwys. Rhaid dweud erbyn hyn bod y dynion yn dda iawn am helpu hefyd. Yn fy mhentyndod dwy thema debyg i Dewi Sant gymerem o wneud y pethau bychain, ac wrth gwrs cawn ein hatgoffa bod gwneud y pethau bychain yn bwysig. O fewn yr eglwys, i'r Arglwydd Iesu, mae pob un mor bwysig â'i gilydd, ac yntau'n caru pob un yn y byd cyfan ac yn ein cymell "Deuwch ataf fi bawb sy'n flinderog ac yn llwythog a mi a esmwythaf arnoch."

Y wraig 'dw'i'n meddwl amdani yw y wraig fedrus yn y Diarhebion, ac mae'n ein atgoffa ni o lawer o wragedd rydyn ni'n cwrdd ar daith bywyd. Dywed y ddefged adnod "Pwy all ddod o hyd i wraig fedrus? Y mae hi'n fwy gwerthfawr na gemau.

Mae cyfoeth llenyddol arbennig yn Llyfr y Diarhebion. Yn wreiddiol cyfres o ddwy linell farddonol ar y tro oedd Diarhebion a osodwyd i gerddoriaeth gan rieni Solomon i'w baratoi yntau i fod yn Frenin. Ynndo mae barddoniaeth yn cael ei ddefnyddio i ddysgu Gair Duw, falle'n debyg i Bwnc Sir Benfro. Dywed Diarhebion 2ail bennod adnod 6 "Oherwydd yr Arglwydd sy'n rhoi doethineb ac o'i enau Ef y daw gwybodaeth a doethineb."

Rwy'n siwr y gallwn ddweud i gyd fod ein haelwydydd a'n rhieni y codwyd ni efo nhw yn aelwydydd â pharch i'r Sul ac i'r Gair ac i bwysigrwydd addoli. Aelwyd felly y codwyd Buddug Medi arni. Cofiaf am deulu adre'n y Stae o ddau frawd a chwaer, un brawd yn ddall a'r llall yn gripil a'r chwaer anllythrennog yn edrych ar ôl ei brodyr. Dyna aelwyd oedd yn llawn doethineb, a'r tri yn wybodus yn y Gair ac yn hyfforddi ni blant os mewn doethineb. Yn sicr fe fyddai'r chwaer yn arsylwi ar yr hyn oedd yn digwydd i'w theulu Adnod 27 (Mae gwraig fedrus yn fwy gwerthfawr na gemau) Adnod 10. Rhoddodd Duw dalent i bob un ohonom a diolchwn am dalentau anhygoel gwagedd heddiw. Cân o fawl i ddoethineb yw pennod 8 o Ddiarhebion.

Mae'r bennod hon yn folawd fawr i unrhyw wraig. Mae'r wraig hon yn gweithredu yng nghysgod ei gŵr ac er ei les ef a'r teulu. Mae angen i ni sicrhau hawliau a chyfleoedd cyfartal i ferched a dynion yn ein cymdeithas. Cawsom syniadau cyffrous pan urddwyd Joanne Penberthy oedd yn rheithor gyda ni yn Lanllyr, y wraig gyntaf i fod yn Esgob. Cyfrinach agwedd y wraig hon yn Diarhebion yw iddi weld na ellir adeiladu cymdeithas gadarn heb fod y cartref a'r teulu yn ganolog i wëad y gymdeithas honno a hynny, nid yn unig er lles ei theulu ei hun ond er lles cymuned gyfan. Tebyg yw'r neges heddiw, y teulu ddylai fod yn brif gadarnle lles a gofal yn ein cymdeithas Gymreig heddiw.

Ar y Sul arbennig yma r'on i'n meddwl hefyd am wragedd fu flaenaf yn ein cymdeithas ac yn ein byd. Pobl fel y Fam Teresa. Yr

emynyddes Ann Griffiths. Mari Jones a gerddodd i'r Bala yn droednoeth i gael ei Beibl ei hun. Yn lleol meddyliwn adre ym Maldwyn am ddylanwad y fam a'r cynllunydd Laura Ashley a greodd gymaint allan o greadigaeth Duw. Creodd waith i gymaint o bobl yn y Canolbarth. Trwy addysgu a chefnogi llwyddodd hithau Buddug i addysgu a chefnogi a throsglwyddo'r grefft o lefaru ac actio i lawer a chreu hyder at y dyfodol. Diolchwn i Dduw am ei thalent. Cofiaf yn dda am y Selar Adrodd ym Mhlas Cywair pan oeddwn yn dod bob haf i Benllyn ers pan oeddwn yn 16 oed a hyd ddiwedd fy nghyrfa.

Tasg arswydus yw cyhoeddi'r Gair a byw ein cred bob dydd. Ein tasg yw gwneud ein gore i ddilyn Iesu yn ein bywyd bob dydd a rhannu ei gariad. Gan wybod "Os yw Duw trosom pwy all fod i'n herbyn?" Mae geirie yn gallu codi calon, geirie cefnogol i godi ysbryd ac yn wir geirie beirniadol a geirie cas sy'n gallu brifo i'r byw. Ein tasg fel Cristnogion yw codi calon ein gilydd gan gofio fel y dywed Paul yn ei lythyr at y Philipiaid "Rwy'n gallu pob peth trwy Grist sydd yn fy nerthu" Clywsom am wraig arbennig adawodd nodyn i ddweud "Gallwch fod yn unrhyw beth yr hoffech fod yn y byd, ond beth bynnag wnewch, BYDDWCH YN GAREDIG.

Roedd pwysigrwydd y wraig fedrus hon yn ei hymroddiad a'i hegni. Roedd y tu hwnt o greadigol. Cynhyrchu er mwyn y teulu fyddai'r wraig fedrus a gwella'i sgiliau wrth wneud. Cynhyrchu er mwyn y plant dan ei gofal â phasiantau a llyfrau a hel hanes bro a theulu a'r gymdeithas o'i hamgylch wnai Buddug Medi. Creu dramau a phasiantau a llyfrau a hel hanes bro a theulu. Rhoddodd Duw dalent i bob un ohonom, medrau gwahanol i bawb. Yn y sgiliau rheini yr adeiladwyd eglwys lwyddiannus. Breiniwyd llawer o blant os yr ardal yma ym Maldwyn o egni a thalent y wraig fedrus hon yn ein plith.

Ie, "Pwy all ddod o hyd i wraig fedrus? Y mae hi'n fwy gwerthfawr na gemau." Er clod i'w enw. Amen.

Valmai Puw Davies

Soned

Traeth Pwllgwaelod 1985

Fe dderbyniais i y gerdd fach hon gan Winnie Jones, gynt o Tabor, Dinas, ond bellach o Gaerfyrddin ac yn aelod yn y Tabernacl. Myfyrio mae ei chynnwys am y cyflwr dynol gan bod yr awdur wedi colli ei thad yn Ebrill 1985 a bod merch ei chyfneither wedi cael babi yn y mis Mai. Mis Chwefror eleni oedd hi pan gefais i'r llythyr a'r gerdd trwy'r post ac ychydig feddyliem ni bryd hwnnw y byddai capeli yn cael eu cau o fewn ychydig wythnosau. Ond er bod y capeli ar glo mae eglwysi'n fyw a Duw ar waith yn harddwch ei fyd fel y tystiodd Ebrill i ni. A phwy wŷyr na fydd yr haint ofnadwy yma yn dod â phobl yn ôl eto at Dduw. Pwy wŷyr na fydd dwy linell olaf y soned hon yn cael eu gwireddu mewn ffordd bositif er gwaethaf a thrwy broblemau 2020.

Traeth Pwllgwaelod 1985

Wrth eistedd ar y traeth brynhawnddydd braf
A gweld y tonnau'n torri'n ewyn gwyn,
Ymgolli mewn myfyrdod dwys a wnaf
Pwy ond y Crëwr fedrai wneuthyr hyn?
Mae'r trai a'r llanw'n mynd a dod o hyd
Fel marw dyn i faban gael ei le
I geisio gwneud ei ran mewn caled fyd,
I ogoneddu'r Tad sydd yn y Ne'.
Mae'r llanw'n golchi'r cestyll tywod gwan
A'u sathru hyd nas gwelir hwy byth mwy.
Ai tynged felly sydd i ddod i ran
Rhai gwan sy'n gwrthod derbyn Crist a'i glwy?
Mae'n drai ar fywyd eglwys ym mhob man.
Pa bryd daw'r llanw nôl â'r llu i'r lan.

Enwau Capeli

Einir Jones

Tybed ydych chi wedi meddwl erioed pa mor ddoeth oedd yr hen dadau a pha mor wybodus oedden' nhw yn eu Beiblau pan oedden' nhw'n enwi eu mannau addoli slawer dydd?

Naddo?

Wel ymhlith yr holl enwadau roedd yr hen wybodusion gynt yn dewis a dethol yn dra doeth.

Dyna i chi Gibeá, capel yr Annibynwyr uwch tro chwyrn ar lethr bryn uchel ar yr heol sy'n arwain o Frynman Uchaf at y Mynydd Du. Ystyr Gibeá yn yr Hebraeg yw Mynydd, neu Bryn. Addas iawn.

A dyna i chi enw fel Soar ar gapel wedyn. Nid at fan a thirwedd mae Soar yn cyfeirio ond yn hytrach at faint. Bach neu Bychan mae'n ei olygu. Pan mae Lot yn cael ordors i ffoi o Sodom ar frys mae'n gofyn i'r angylion diamynedd am gael mynd i ddinas gyfagos Soar yn nyffryn yr Iorrdonen yn hytrach nag i'r mynydd pell a diffaith rhag cael ei ddifetha – am fod Soar yn lle bychan – ac yn fwy cartrefol o bosib iddo fel dyn y dref!

Fe â'i drwy restr enwau capeli nawr a rhoi eu hystyr – Capeli Bedyddwyr yw'r rhain ac allan o'r llawlyfr maent yn dod.

Rwy'n cynnwys un enw o Benfro sy'n eglwys Saesneg – am ei fod mor ddiddorol a gwahanol.

Ainon – roedd lot o ddŵr yno meddai Ioan yn ei efengyl ac yno roedd y Bedyddiwr blewog yn trochi pobl. Ystyr y gair yw ffynhonnau (springs) neu darddle dyfroedd. Roedd y fan gerllaw Salim, ac yn rhyd gyfleus i groesi'r Iorrdonen i'r gogledd o'r Môr Marw. Doedd y glannau ddim yn serth fan honno fel mewn mannau eraill felly roedd yn haws cerdded i'r dŵr. Roedd Ainon hefyd ar y llwybr ar ochr ddwyreiniol yr Iorrdonen a ddefnyddiai pobl i osgoi mynd drwy Samaria.

Bethel – Tŷ i Dduw (a phorth y Nefoedd) meddai Jacob y twyllwr pan oedd yn ffoi am Mesopotamia rhag ei frawd, Esau. Yno, wedi penderfynu aros dros nos cafodd freuddwyd am angylion ac ystol i'r nefoedd tra'n cysgu a'i ben ar garreg. Hen enw'r lle oedd Luz meddai awdur Genesis. Yn y bore cysegrodd Jacob y garreg am ei fod wedi cyfarfod â Duw yno.



Jacob yn Bethel

llun: hotelgilgal.com

Seilo – Dyma'r fan lle cedwid y Tabernacl yng nghyfnod Samuel. Aeth yno yn blentyn bach i helpu Eli'r hen offeiriad. Man i orffwys yw ystyr yr enw ac roedd yn ardal Efraim. Yma y rhannwyd y tir allan yn nyddiau Joshua oherwydd roedd yn cael ei ystyried yn ganolfan weinyddol ac oddi yno yr arweinid y genedl yn grefyddol hefyd o ddyddiau Eli hyd ddiwedd oes Samuel.

Hebron – Tref yn Jiwdea lle bu Dafydd yn byw. Ganwyd iddo chwech o feibion tra roedd yno. Doedd ganddo ddim ond chwe gwraig ar y pryd! Man ymuno yw ystyr yr enw. Ffurf arall ar yr enw yw Heber. Yma y gwersyllodd Abram ger coed deri sanctaidd Mamre ac yma y daeth yr angylion ato rhyw ganol dydd i ddweud bod Sarah yn mynd i gael mab. (Ac fe chwarddodd hi – ystyr Isaac yw chwerthin.)

Sardis – O’r Datguddiad y daw’r enw yma ar ddinas yn y wlad a alwn ni yn Twrci heddiw. Asia Leiaf oedd yr enw bryd hwnnw. Roedd pobl Sardis yn cael enw eu bod yn fyw er mai marw oedden nhw meddai Ioan yn ei lythyr deifiol atynt o Batmos. Enw da ar sawl capel cyfoes wedwn i! Ond chware teg, roedd rhai yn Sardis yn dal heb halogi eu dillad meddai Ioan yn nes ymlaen felly mae gobaith ym mhobman ond y bedd ac wedi’r oedfa gau.

Moriah – Dyma’r bryn lle yr aeth Abraham i aberthu Isaac. Yma fe gredir y saif Jeriwsalem heddiw, safle Calfaria wrth gwrs ac mae rhywun yn cofio geiriau proffwydol a dyblyg Abraham y byddai Duw ei hunan yn darparu’r Oen i’w aberthu. (Jehovah jeire – ac fe wnaeth).

Tabernacl a Y Babell– Tent, pabell oedd y man addoli yma ac roedd yr hen genedl wedi ei gwneud ar y cynllun roddodd Duw i Moses ar Seinaï. Roedd hi’n arwain ar flaen pob taith trwy’r anialwch. Ystyr yr enw yw Man cyfarfod Duw a dyn. Addas iawn. Dywed Ioan bod Iesu wedi tabernaclu, wedi ymbabellu yma gyda ni – ac a drigodd yn **ein plith - a’r Groeg am y geiriau yw skenoo sef codi tent.**

Nasareth – ystyr y dewis yn hollol amlwg. Tref ar lethr bryn uchel oedd hi gyda chlogwyn a dibyn yn agos. Edrychai i lawr ar wastadedd Galilea i’r dwyrain a draw am Fôr y Canoldir i’r Gorllewin a Ffordd y Môr – un o brif heolydd masnach yr hen fyd. Blaguryn (Nazar) yw ystyr Nasareth ac fe gofiwn am y blaguryn o gyff Jesse fu fyw yno hyd nes ei fod tua deg ar hugain.

Harmoni – enw diddorol a gobeithiol nad yw ar gael yn y Beibl ond sy’n amlygu gobaith am gyd-dynnu a chydweithio dan iau cariad Crist. Mae’r Salmydd yn sôn mor dda yw hi pan fo pobl Dduw yn cyd-dynnu a chytuno.

Jabes – un oedd wedi peri galar i’w fam ar adeg ei eni oedd hwn – “Tristwch a phoen” yw ei ystyr. Ond fe weddiodd Jabes pan ddaeth yn ddigon hen i ddeall ystyr ei enw ac fe gafodd fendith a newidiodd y tristwch yn rhywbeth da i eraill. Mae’r hanes llawn yn 1 Cronicl, pennod 4.

Bethlehem – Tŷ Bara yw ei ystyr ac roedd y fan yn doreithiog mewn cnydau da yng nghanol brynïau garw y garreg galch lleol.

Dyma gartref Ruth a Boaz a'u disgynyddion – Obed, Jesse a Dafydd, a man geni Iesu. Llwyth Jiwda oedd piau'r ardal. Yma roedd bedd Rahel gwraig Jacob fu farw ar enedigaeth Benjamin. O Bethlehem yr oedd y Meseia i ymddangos meddai Meica. Ac felly y bu.

Hephezibah – dyma'r eglwys Saesneg yng Nghymanfa Penfro - a'r ystyr yw 'Mae fy hyfrydwch ynddi'. Hephezibah oedd gwraig y brenin da hwnnw Heseceia (a mam Mannase y brenin drwg ofnadwy hwnnw o ran hynny sydd jyst yn profi nad yw daioni yn gynhenid yn genynnau). Ond dyna enw da am gapel ondyfe? Hyfrydwch ddylai addoliad fod.

Amor – ystyr Amor yw cariad yn y Lladin a fu erioed enw gwell ar gapel. 'Duw, cariad yw' meddai'r adnod. Dylai bod y cariad hwnnw yn amlwg ymhlith ei ddilynwyr.

Sittim – Dyma'r man olaf lle gweryllodd yr hen genedl dros y ffordd i Jerico cyn croesi'r Iorrdonen i Wlad yr Addewid. Joshua oedd yr arweinydd bellach. Mae'n bosib bod yr ardal wedi ei henwi ar ôl y coed sittim (Acacia) a dyfai yno, pren a ddefnyddiwyd yn helaeth yn y Tabernacl ac wrth saernio Arch y Cyfamod.

Adulam – ogof oedd hon lle cuddiodd Dafydd a'i ddynion pa oedd ei ffo rhag ei dad yng nghyfraith Saul (oedd yn bi-polar wrth ei golwg hi). Noddfa yw ei ystyr, man i guddio ynddo. Mae ogof Adulam ar ben mynydd sy'n edrych i lawr dros ddyffryn Elah, y man lle lladdodd Dafydd y cawr, Goliath.

Saron – darn o dir da a ffrwythlon dros ben yw hwn sydd rhwng mynyddoedd canoldir Israel a'r môr. Rhosyn Saron meddai Ann Griffiths am Iesu. Math o Hibiscus yw'r blodyn ac mae yn un hardd iawn.



Rhosyn Saron
llun:www.flowers.vg

Hermon – Mynydd yng ngogledd Israel yw Hermon ac mae eira arno trwy'r flwyddyn bron gan ei fod mor uchel – dros 9,000 o droedfeddi. Heb fod ymhell oddi wrtho mae tarddle'r Iorddonen sy'n llifo i mewn i Fôr Galilea tua 40 milltir i'r de. Mae Hermon i'w weld yn glir o bobman yng ngogledd Israel. Ystyr ei enw yw 'dewisedig'.

Emaus – Pentref lle roedd cartref neu fan aros y ddau ddisgybl ar noswyl Sul y Pasg. Cerddodd Cleopas a'i ffrind ar y ffordd yno a chyfarfod Iesu. Roedd yn saith milltir a hanner oddi yno i Jeriwsalem meddai Luc, yr hanesydd manwl. Ystyr yr enw yw ffynhonnau cynnes. (...onid oedd ein calonau yn llosgi?). Mae'r hanes yn unigryw i Luc ac ar gael ym mhennod 24 o'i efengyl.

Calfaria – Gan Luc hefyd y cawn yr enw Calfaria, mae'r lleill yn defnyddio Golgotha'r Hebraeg (o'r Aramaeg Gulgata) sef Lle y Benglog. Enwyd y fan meddir ar ôl y bryn isel tu allan i furiau Jeriwsalem bryd hwnnw lle croeshoeliwyd Iesu. Y gair Groeg ddefnyddia Luc am y lle yw Kranion (cranium, asgwrn penglog). Os mai hwn yw'r bryn cywir a ddangosir i dwristiaid heddiw mae'r garreg galch wedi treulio i siap penglog gydag ogofau yn dyllau llygaid. Man dienyddio amlwg ydoedd ger y ffordd fawr, ac o bosib bod penglogau ac esgyrn cyrff na chladdwyd hwy wedi eu gadael o gwmpas y fan.



Bryn Calfaria
Llun: Jerusalem.com

Os nad yw enw eich capel chi wedi ymddangos hyd yma arhoswch tan y Cwllwm nesa ac fe gewch fwy o enwau. Rwyf wedi gadael cwpwl o hen enwau allan hefyd, rhai fel Bethabara a Rehoboth nad ydynt yn y Llawlyfr presennol. Mae ystyr Rehoboth yn ddisgrifiadol, sef lle llydan ac eang. A man arall oedd Bethabara ar yr Iorddonen lle roedd Ioan yn bedyddio a'i ystyr yw 'Tŷ Hyder'. Efallai y bydda'i'n cynnwys enwau capeli rhai enwadau eraill hefyd tro nesaf os bydd gofod. Gobeithio i chi fwynhau y daith eiriol o gwmpas Israel a Chymru. Mwy tro nesa!

Pwy neu Ble...

1. Ble 'roedd cartref Abraham wedi iddo adael Ur y Caldeaid?
2. Pa eglwys mae Ioan yn dweud y bydd Duw yn ei phoeri allan yn Llyfr Datguddiad?
3. Lle symudodd Iesu i fyw ar ôl Nazareth?
4. Gwelodd Paul mewn breuddwyd ddyn yn gofyn am ei help. Dyn o ble ydoedd?
5. I ble cafodd Iesu wahoddiad i briodas?
6. Eisteddodd Peilat ar hwn i roi barn ar Iesu.
7. Ble glaniodd arch Noa?
8. Ym mhle roedd y deg dyn gwahanglwyfus yn crwydro?
9. Pysgotwyr ar ba fôr oedd Pedr ac Andreas?
10. I ble roedd llong Jona yn mynd?
11. Mae afon Eden yn rhannu'n bedair. Gihon, Pison, a dwy arall. Enwch nhw.
12. Ar ba wastadedd y safai delw anferth Nebuchodonosor?
13. Roedd Sergius Paulus yn rhaglaw ar yr ynys yma.
14. Ble roedd cartref Pedr?
15. Ble roedd Nathanael wedi bod yn eistedd?
16. Enw arall Calfaria (yn Aramaeg).
17. O ba wlad oedd Namaan yn hannu?
18. Ble lladdwyd Saul a Jonathan?
19. Enwch bentref genedigol Dafydd.
20. O ble roedd Ruth yn dod yn wreiddiol?
21. Cododd Iesu fab gwraig weddw yn fyw yn y dref fach yma.
22. Ar nos Sul yr Atgyfodiad roedd dau yn rhuthro nôl am Jerwsalem o'r fan yma. Allwch chi ei enwi?
23. Pa wlad oedd cartref Job?
24. Carchar oedd yr ynys yma, heb fod ymhell o arfordir Twrci. Bu Ioan arni.
25. Ble torrodd Pedr glust dde Malchus i ffwrdd?

Fflapjacs Blasus

- 120 gram o Fenyn – toddwch yn araf mewn sosban dda.
- Ychwanegwch i'r sosban wedyn:
- 120 gram o Siwgr Demerara
- 120 gram o Uwd
- 8 diferyn o Fanila
- 5 llond llwy fwrdd o goconut

Cymysgwch yn dda a'i rannu i mewn i ddau dun *Victoria Sponge* sgwar (neu un tun *Traybake* mwy) a'i grasu am 20 munud 190 neu 375, Nwy 5.

Wedi iddo oeri, torrwch yn sgwariau.

(Flynyddoedd yn ôl roeddem ni'n arfer mynd fel teulu bob haf i aros mewn maes pebyll ger Caerfaddon. Byddai'r hen wraig oedd biau'r lle yn gwneud cyflenwad newydd o'r rhain bob dydd ac yn eu gwerthu. Mae gweld ei llawysgrifen ar y papur rysait a ysgrifennodd i mi yn dod â'r lle hyfyd hwnnw yn ôl yn fyw i'r cof, a'r atgofion da am flas y fflapjacks yn cael eu deffro. Gol.)



llun:recipeler.com

Yr Atebion

1. Haran
 2. Laodicea
 3. Capernaum
 4. Macedonia
 5. Cana, Galilea
 6. Y Palmant – Gabbatha
 7. Mynydd Ararat
 8. Ar y ffin rhwng Galilea a Samaria
 9. Môr Galilea (Genasaret, Cinneroth, Tiberias yw ei enwau eraill)
 10. Tarsus
 11. Hidecel ac Iwffrates
 12. Gwastadedd Dura
 13. Cyprus
 14. Bethsaida
 15. Dan y ffigysbren
 16. Golgotha
 17. Syria
 18. Mynydd Gilboa
 19. Bethlehem
 20. Gwlad Moab
 21. Nain
 22. Emmaus
 23. Gwlad Us
 24. Ynys Patmos
 25. Gardd Gethsemane.
-

Torth Ffrwythau

Torth FLASUS IAWN! (June, capel ni!)

- 12 owns ffrythau cymysg
- 6 owns siwgwr
- 8 owns menyn di-halen
- 2 wŷ
- Chwarter peint o laeth/dwr yn gymysg a joch o sherry neu frandi ynddo
- 1 llwy de o Fei Carb
- 1 llwy de o Sbeis Cymysg

Berwi popeth ynghyd ond y blawd a'r wyau mewn sosban dda. Gadael iddo oeri. Ychwanegu'r blawd a'r wyau. Rhoi mewn 2 dun wedi eu hiro'n dda, un mawr ac un llai.

Ffwrn: Nwy 4, 350F, 180C am awr i awr a hanner. Cadw llygad am yr hanner awr diwethaf – chi'n adnabod eich ffwrn. Mae hon yn gwneud Teisen Nadolig flasus – a ddim yn rhy drwm.

(Mae June yn gwneud hon weithiau ar gyfer ein paned wedi cwrdd nos Sul ac mae'n rhaid i mi gael ail damaid bob tro! Gol.)

Diolch am Destun

DIOLCH

Patricia Raybon

'Roedd hi'n amser cinio, eto! A dyna ble 'roedd y tri wŷr bach yn cwyno ac yn conan, "Ni ishe bwyd Nain!" 'Roedd eu rhieni yn y gwaith, wedi symud yn nes atom ni ac mewn swyddi addawol bellach ac felly 'roedd Taid a Nain yn gwarchod. Eto!

Mae hyn yn golygu mod i'n fyr fy amynedd ac yn bigog. Aeth deg ar hugain o flynyddoedd heibio ers i ni ymladd gyda gofynion gofalu am blant bach. 'Rydyn ni'n dau yn hŷn hefyd a does gennym ni mo'r egni bellach na'r dychymyg i gofio sut mae cadw plant bach yn ddiddig, sut mae eu bwydo a'u diddanu am ddiwrnod hir.

Ond 'rwy wedi dysgu trwy hyn i gyd mai fy mhroblem sylfaenol i yw diffyg diolchgarwch. 'Rwy'n anghofio'n aml pa mor ddoniol a diddorol y gall plant bach fod a pha mor dda a pharod yw Duw yn rhoi gras i ni i ddelio gyda nhw (ac eraill!). Yn aml mae fy nghwyno a'm blinder yn tyfu yn gyflymach na'r diolch ddylwn i fod yn ei roi iddo Ef am ei ddaioni parhaus tuag ata'i. 'Dydw i ddim wedi hyd yn oed ddiolch bod y teulu wedi symud yn nes atom i fyw, 'dydw i ddim wedi gofyn am ei help chwaith i newid fy nghalon ddi-groeso.

'Rydw i wedi llwyr anghofio beth ddysgodd Paul i'r Thessalonïaid gynt (llythyr cyntaf, pennod 5, adnod 18) Ym MHOB Dim Diolchwch meddai. Fe fyddai G.K Chesterton (awdur Father Brown) wedi cytuno gyda fe, "Diolch", meddai hwnnw "yw mam pob daioni".

'Rydw i'n ymladd yn barhaus gyda diffiniad Thomas Fuller, yr hanesydd, o beth yw Anniolchgarwch. Roedd Thomas Fuller yn credu mai Anniolchgarwch sydd wrth wraidd pob drygioni ac mae haid o bechodau dynol yn ei ganlyn. Mae'n fater dwys bod yn anniolchgar.

'Rydyn ni'n rhoi ein hanghenion ein hunain gyntaf ac felly yn tyfu'n raddol i fod yn bobl grablyd a sur gan anghofio bod diolch am bethau yn tyfu Teyrnas Nefoedd ym mywydau y rhai sydd o'n cwmpas – gan ddechrau gyda ni'n hunain wrth gwrs! Yn y diwedd, mewn blinder llwyr ac yn ddiflas iawn fe rois i'r broblem yn llaw Duw ac mae wedi dangos tair ffordd i mi i fod yn ddiolchgar a thewi fy nghwyno di-ddiwedd.

Newid Persbectif Pethau – Pan mae miloedd o bobl yn y byd yn brin o rywbeth mor syml â phâr o esgidiau 'rydyn ni'n tristáu Duw trwy gwyno ac anghofio sut y mae wedi darparu mor hael ar ein cyfer ni. Tra 'rwy'n crymu a thynnu fy hunan o amgylch y stôf a'r gegin i wneud bwyd i'r haid fach swnllyd, mae miloedd o bobl heb gegin nac esgidiau. Felly mae angen gofyn i Dduw am galonnau diolchgar yn ddyddiol a diolch iddo am ei haelioni diderfyn.


Dweud “Diolch i Ti” wrth Dduw yn rheolaidd. Fel y Brenin Dafydd gadewch i ni ddangos arwyddion o werthfawrogiad yn aml i Dduw. Meddai yn 1 Cronicl 29, 11,13, “I Ti o Arglwydd y mae y mawredd a'r gallu a'r gogoniant a'r godidowgrwydd. Ti sydd biau'r cyfan sydd ar y ddaear ac yn y Nefoedd... Rydyn ni'n rhoi diolch ac yn moliannu dy enw ardderchog.” Mae diolch fel yna yn dweud wrth Dduw yn union beth 'rým ni'n ddiolchgar amdano. Gwnewch yn siwr eich bod yn ymarfer y ffordd yma o ymddwyn a gwyliwch beth ddigwydd pan fydd eich dealltwriaeth ohono Ef yn dyfnhau trwy eich diolch.

Dwedwch “Diolch” wrth bobl eraill. Gwnewch hyn yn rheol eich bywyd. Roeddwn i yn y banc ac fe ofynnwyd i mi lenwi ffurflen i ddangos pa mor werthfawrogol neu feirniadol oeddwn i o staff y banc hwnnw. Fe rois i bethau positif a gwir i lawr a dweud wrth y wraig roddodd y ffurflen i mi “Rydych chi bob amser yn broffesiynol ac yn barod i helpu.” Pe byddech chi wedi gweld ei gwên! Beth 'rydyn ni'n ei gael allan o fod yn ddiolchgar i eraill? Cysylltiad! Mae diolchgarwch yn gwneud i bobl wenu, mae'n gwneud yr hen fyd yma yn llai bygythiol ac unig i bobl.

Mae'n dangos Iesu i eraill ac yn lledaenu ei newyddion da a'i gariad. Ydy hyn yn ddrud a beichus i'w gyflawni? Dim ond ychydig o amser

ychedig o ymdrech. Ond mae'n fuddsoddiad ffantastig! Mae'n creu undod a llawenydd. Mae ar y byd angen ein diolchgarwch oherwydd felly y mae'n dod i adnabod Duw. Ni sy'n ei gyflwyno i'r byd. 'Roedd fy wyrion ei angen hefyd. Ac fel yr aeth fy nghwyno parhaus innau yn brinach, fe aeth eu cwyno nhw lot yn llai amlwg hefyd. Ac fel y dywed yr emynydd,

O, na chawn i brofi nerthol
weithrediadau'r Ysbryd Glân
fel y gallwn yn wastadol
yn lle cwyno, seinio CÂN!



Adroddiad yr Ysgrifennydd

Y Chw. Bonni Davies

“Duw sydd noddfa a nerth i mi, cymorth hawdd ei gael mewn cyfyngder”. (Salm 46: 1)

Covid-19 - A ninnau mewn cyfnod na welwyd ei debyg o'r blaen, mae'n siŵr ein bod ni'n derbyn cysur trwy Air Duw. Mae darllen drwy'r Salmu'n ffordd syml o gael ein hadnewyddu a phan mae pethau'n anodd gall y llyfr yma o gerddi, gweddiâu, a myfyrdodau fod yn gysur ac yn anogaeth i ni. Dyna fy mhrofiad innau'n ddiweddar wrth i'r pandemig droi cynlluniau pawb ben i waered.

Pwyllgor Gwaith - Bu'r Mudiad yn ddigon ffodus i allu cynnal pwyllgor cyn i'r llywodraeth roi diwedd ar gyfarfodydd o bob math. Cafwyd cyfle yn y pwyllgor i longyfarch ac i ddymuno'n dda i nifer o'n haelodau ond bu hefyd yn gyfle i ddiolch am wasanaeth y ddiweddar Barchedig Mair Bowen, aelod o'r Pwyllgor Gwaith a gyflawnodd sut gymaint o waith dros y Mudiad, y BMS a'r Undeb. Bu'n bwyllgor buddiol wrth i nifer o gynlluniau gael eu gwneud ynghylch gweithgareddau'r chwiorydd. Cafwyd cyfle hefyd i ddiolch i'r chwaer Eleri Lloyd Jones a chriw Emaus Bangor am gyfarfodydd blynyddol bendithiol y mis Medi cynt.

Cyfarfodydd Blynyddol 2019 - Er i wyth mis fynd heibio roedd y cyfarfodydd yn dal yn fyw yng nghof pawb. Cofir am groeso twymgalon aelodau Emaus; am y modd hyfryd y llywiwyd oedfa'r prynhawn gan Sarah East; ac am neges arbennig y llywydd newydd Eleri Lloyd Jones, wrth iddi gyflwyno anerchiad ar y testun “Cwlwm Cariad” gan bwysleisio bod cariad Duw yn cael ei glymu â chariad at

erail. Cafwyd enghraifft o'r cariad hwnnw yn oedfa'r hwyr wrth i dair chwaer, am yn ail ag eitemau gan ieuenctid yr eglwys, sgwrsio am agweddau o weithgarwch cymdeithasol a dulliau ymarferol o ddangos Cariad Duw. Cafwyd cyfarfodydd i'w cofio a diolchir i bawb a fu ynglŷn â hwy.

Prosiect nesaf y Mudiad - Trafodwyd thema'r prosiect nesaf mewn sawl pwyllgor, a'i drafod ymhellach ym mis Mawrth. Dewiswyd 'Gofal' fel thema a hwnnw'n cynnwys pob agwedd ohono. Gallai'r prosiect gynnwys gwasanaethau cyflawn; deunydd addoliad; gweddiâu; cerddi neu gyflwyniadau. Fel o'r blaen, gofynnir i bob Cymanfa fod yn gyfrifol am un agwedd ac anogir pawb i anfon eu syniadau i'r ysgrifennydd. Gyda llawer bellach yn gaeth i'w tai mae hyn yn gyfle arbennig i ddechrau ar y gwaith! Felly, beth amdani?

Dydd Gweddi Chwirydd Bedyddwyr y Byd - Mae thema newydd a fformat newydd i raglen y Dydd Gweddi eleni. Paratowyd y rhaglen ar y thema 'Bywyd' gan chwirydd o bob cyfandir. Yn ffodus iawn i ni mae'r Parchg Jill Tomos wedi bodloni cyfieithu ac addasu'r oedfa ar ein cyfer eleni eto ac mae'n gwerthfawrogiad iddi'n fawr. Penderfynwyd bwrw ymlaen gyda'r addasu gan y byddai'r oedfa'n gallu cael ei defnyddio unrhyw bryd ac fe fyddai'n adnodd gwerthfawr i'n heglwysi.

Rhoddion - Yn flynyddol bydd y Pwyllgor Gwaith yn cyfrannu at achosion da sy'n dod o dan ymbarél UBC. Penderfyniad y Pwyllgor Cyffredinol 2019 oedd mai Glyn Nest yn unig fyddai'n derbyn rhodd eleni am fod y cartref yn 50 oed. Danfonwyd £1,500 i'r cartref.

Pwyllgor Cyffredinol 2020 – Oherwydd y sefyllfa, ac ar ôl cael sgwrs ar y ffôn gyda phob aelod o'r Pwyllgor Gwaith, penderfynwyd na fyddem yn cyfarfod ym mis Gorffennaf.

Glyn Nest - Penderfynwyd na fyddai'n ddiogel cynnal Dydd Agored y cartref ym mis Awst na 'Dathlu'r Hanner Canrif' ym mis Medi. Da yw dweud fod pawb yn ymdopi gyda'r sefyllfa'n eithaf da yno a'r staff yn mynd yr ail filltir er mwyn sicrhau diogelwch y deiliaid.

Cyfarfodydd Blynyddol 2020 - Ni fu'r penderfyniad ynghylch y Cyfarfodydd Blynyddol i'w cynnal yn y Tabernacl Caerdydd yn hawdd. Ond gwnaed y penderfyniad yn haws pan welwyd papur a luniwyd gan Lywodraeth Cymru yn deddfu na fyddai hawl cynnig llety i neb tan ar ôl 26ain o Fedi. Penderfynwyd felly, er lles ac iechyd pawb, mai doeth fyddai gohirio i 2021. Bodlonodd Eleri, y llywydd cyfredol i barhau yn ei swydd am flwyddyn ychwanegol.

Cwlwm – Diolchir yn fawr i bawb a gyfrannodd at y rhifyn cyfredol o 'Cwlwm' a diolch arbennig i Einir Jones am fwrw'r cyfan at ei

gilydd. Am nad yw swyddfa'r Undeb ar agor ar hyn o bryd a dim gobaith argraffu a dosbarthu'r rhifyn, penderfyniad Einir a minnau oedd bwrw ymlaen a'i roi ar wefan yr Undeb. Gobeithir, pan ddaw popeth nôl i normal, y gellid ei argraffu a'i ddosbarthu i bawb.

“Dyrchafaf fy llygaid i'r mynyddoedd” - Arferiad y Mudiad yw dosbarthu Cwlwm mis Mai yng Nghyfarfodydd Blynyddol Senana Cymru. Fel y mae'n digwydd, roeddent i'w cynnal yng Nghaersalem sir Benfro ar 6ed o Fai a minnau'n selio fy anerchiad ar adnod gyntaf Salm 121. Gadewch i ninnau, chwirydd Cymru, yn y cyfnod anodd hwn, ddyrchafu ein llygaid i'r mynyddoedd o'r lle y daw ein cymorth. Ymddiriedwn ynddo Ef yr hwn a wnaeth nefoedd a daear.

CYNGERDD NADOLIG GLYN NEST 2019



Uchod, Aelodau Bethania gyda Santa ac isod Triawd y Nadolig





Staff y cartref yn mwynhau'r ginio Nadolig.

Noson 'Cawl a Chân' Glyn Nest



Cawl blasus y gogyddes ac adloniant Mallt Ladd-Lewis, Rhidian Evans a Fflur James



Y ddwy wraig hynaf yn y cartref yn mwynhau.

Diolch i Hefin Roberts am y lluniau

